

Agweddau hanfodol ar arfer academiaidd

Adran 1: Deall ac Adnabod Arfer Academiaidd mewn Aseiniadau

John Morgan, Cymorth Dysgu i Fyfrwyr, a Tamsin Davies, Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau
Cymdeithasol, Prifysgol Aberystwyth

1. Amcanion

Nod y cwrs hwn yw codi ymwybyddiaeth o arfer academiaidd da a sut mae ei adnabod. Drwy ddod i'r arfer ag egwyddorion arfer da, gall myfyrwyr wneud penderfyniadau gwybodus wrth gynllunio ac ysgrifennu traethodau ac aseiniadau eraill. Mae'r cwrs yn ffocysu ar ddefnyddio cyfeiriadau (*citations*), dyfyniadau (*quotations*), cyfeirnodau (*references*) a llyfryddiaethau (*bibliographies*). Mae hefyd yn cynnwys cyngor a thechnegau ar gyfer aralleirio a chrynhoi mewn aseiniadau ysgrifenedig a chyflwyniadau llafar.

2. Canlyniadau Dysgu

Ar ôl darllen pedair adran y canllaw hwn, dylech chi allu:

- i) Adnabod ffyrdd y gall ffynonellau cyfeiriol (*reference sources*) gael eu defnyddio mewn aseiniadau ysgrifenedig a gwaith asesedig arall;
- ii) Dehongli disgwyliadau adrannol ynglŷn ag arfer academiaidd da;
- iii) Adnabod deunyddiau academiaidd addas i gyfeirio atynt mewn aseiniadau;
- iv) Adnabod nodweddion penodol arfer academiaidd da a sut maen nhw'n wahanol i ymddygiad academiaidd annerbyniol;
- v) Defnyddio strategaethau ar gyfer cyfeirio, dyfynnu, aralleirio, crynhoi, defnyddio cyfeirnodau ac ysgrifennu llyfryddiaethau yn effeithiol.

3. Dolenni hanfodol y tu allan i'ch adran

- SgiliauAber / AberSkills
 - <https://www.aber.ac.uk/cy/sgiliauaber/> (Cymraeg)
 - <https://www.aber.ac.uk/en/aberskills/> (Saesneg)
- Y Gofrestrfa Academiaidd: Rheoliad ar Ymddygiad Academiaidd Annerbyniol
 - <https://www.aber.ac.uk/cy/academicregistry/handbook/regulations/uap/>
- Datganiad ar arfer academiaidd (Saesneg yn unig):

- https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/skillshub/GoodAcademicPractice_English.pdf>
- Cefnogaeth a modiwlau ar ysgrifennu academiaidd yn Saesneg (yn agored i bob myfyriwr):
 - <https://www.aber.ac.uk/cy/student-learning-support/>
- Cefnogaeth a modiwlau ar ysgrifennu academiaidd yn Gymraeg (yn agored i bob myfyriwr):
 - <https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/learning-teaching/sgiliauacademaiddifyfyrwyr/>
 - Cysylltwch â'r Tiwtor Sgiliau Iaith drwy e-bostio sgiliau@aber.ac.uk
- Ymgynghoriadau unigol ar ysgrifennu traethodau yn Saesneg (yn agored i bob myfyriwr, ymgynghoriadau ar gael yn Gymraeg):
 - Gwnewch apwyntiad drwy e-bostio writers@aber.ac.uk
- Cefnogaeth iaith Gymraeg:
 - <https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/learning-teaching/learning-improving-welsh/informationforstudents/>
 - Cysylltwch â'r Tiwtor Sgiliau Iaith drwy e-bostio sgiliau@aber.ac.uk
- Cefnogaeth ar gyfer datblygu sgiliau iaith Saesneg (i fyfyrwyr nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf):
 - <http://www.aber.ac.uk/en/international-english>
 - Gwnewch apwyntiad drwy e-bostio: tesol@aber.ac.uk

Nodyn ar ffynonellau'r ddogfen hon

Mae rhai o'r nodiadau sy'n ymddangos yn y ddogfen hon yn dod o'r modiwlau academiaidd isod neu wedi cael eu haddasu ohonynt.

- IC17720: Planning, Process and Product in Academic Writing (2 semester)
- IC10210: Academic Writing 1 (IC17720 semester 1)
- IC10310: Academic Writing 2 (IC17720 semester 2)
- CY01020: Sylfaen Sgiliau Academaidd 1 (semester 1)
- CY01120: Sylfaen Academaidd 1 (semester 2)
- CY11020: Ymwneud â'ch Pwnc yn Gymraeg: Sgiliau Dwyieithog ar gyfer y Brifysgol a'r Gweithle (semester 1)

Mae croesgyfeirio rhwng y cwrs hwn a'r modiwlau uchod yn sicrhau bod myfyrwyr ar wahanol gyrsiau yn cael yr un cyngor. Mae pob ffynhonnell arall yn ymddangos yn y llyfryddiaeth ar ddiwedd y ddogfen hon.

NODYN PWYSIG: Mae'r ddogfen yn defnyddio dull cyfeirnod Harvard . Mae'n hanfodol ichi adnabod a defnyddio'r dull y mae eich adran yn ei argymhell.

- Mae rhaid ichi adnabod a defnyddio'r dull y mae'ch adran yn argymhell a nodi unrhyw wahaniaethau rhwng dulliau eraill mae adrannau eraill rydych yn astudio ynddynt yn eu defnyddio.
- Mae dulliau cyffredin sydd cael eu defnyddio ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cynnwys:
 - o Harvard
 - o APA (American Psychological Association)
 - o MHRA (Modern Humanities Research Association)
 - o MLA (Modern Language Association)
 - o IEEE (Institute of Electrical and Electronics Engineers)
 - o Troednodiadau/Ôl-nodiadau

4. Deall arfer academiaidd ar gyfer aseiniadau

Mewn gwaith academiaidd, mae angen inni ddangos dealltwriaeth o'r egwyddorion sy'n sail i unrhyw drafodaeth neu ymchwiliad. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid dangos ein bod ni'n gyfarwydd â gwaith ymchwilwyr ac arbenigwyr eraill yn y maes perthnasol. Mae'r dehongliadau beirniadol, syniadau gwreiddiol a chyfraniadau at wybodaeth yn ein gwaith yn gorfod ymddangos yng nghyd-destun gwaith sydd eisoes yn bodoli mewn meysydd academiaidd a/neu broffesiynol, h.y. mewn gwaith cyhoeddedig.

Er mwyn i'n gwaith ymddangos yng nghyd-destun gwaith sydd eisoes wedi'i gyhoeddi, rydym ni angen astudio, trafod a dadansoddi sut mae'r gwaith hwn yn berthnasol i'r cwestiwn dan sylw. Fel ysgrifennwyr academiaidd, rydym ni'n gallu cyfrannu at ein pwnc gyda syniadau newydd neu syniadau sydd wedi'u haddasu. Fodd bynnag, ar bob cam o'r broses ysgrifennu, mae rhaid inni gydnabod y ffynonellau sy'n sail i'r hyn rydym ni wedi'i ysgrifennu. Os bydd y darlennydd yn gallu gweld pa syniadau sy'n perthyn ichi a sut mae'r syniadau hyn yn gysylltiedig â gwaith cyhoeddedig, bydd eich syniadau chi'n sefyll allan. Hefyd, bydd yn amlwg ble mae eich gwaith yn perthyn yn nhermau academiaidd a phroffesiynol.

Mae problemau gydag arfer academiaidd yn gyffredin a dydyn nhw ddim yn digwydd ar eu pennau eu hunain. Yn aml, mae myfyrwyr yn cael trafferth gyda defnyddio cyfeiriadau,

dyfyniadau, cyfeirnodau, llyfryddiaethau, crynhoi ac aralleirio. Mae'r arferion hyn yn gallu bod yn anghyfarwydd, gan nad oedd disgwyl i fyfyrwyr eu dilyn yn eu coleg neu ysgol. Mae'r disgwyliadau yn y brifysgol yn fwy heriol, ond maen nhw'n annog myfyrwyr i ddatblygu sgiliau beirniadol cryf, wrth iddyn nhw ddod i ddeall sut mae eu gwaith eu hunain yn gysylltiedig â gwaith cyhoeddedig arbenigwyr yn y maes academiaidd perthnasol.

Mae llawer o broblemau yn codi oherwydd diffyg cynllunio a rheoli amser gwael. Ambell waith, ar ben diffyg cynllunio a rheoli amser, mae amgylchiadau personol y tu hwnt i reolaeth y myfyriwr yn gallu cymhlethu'r sefyllfa. Mewn achosion eraill, nid yw'r myfyrwyr yn ymwybodol o reolau a rheoliadau ynglŷn ag arfer academiaidd, neu efallai eu bod yn ei chael yn anodd gweithio mewn maes newydd, ambell waith yn eu hail iaith. Fel arfer, mae myfyrwyr eisiau gwneud eu gorau, ond maen nhw'n troi at ddefnyddio syniadau o ffynonellau cyhoeddedig neu ffynonellau ar-lein, heb ddehongli, dadlau a chyfeirnodu yn ddigonol.

Mae'r problemau mwyaf cyffredin yn ymwneud â:

- Dyfyniadau (*quotations*)
- Cyfeiriadau (*citations*)
- Cyflwyno a gosod syniadau ar y dudalen er mwyn adnabod dyfyniadau a chroesgyfeirio
- Dehongli dyfyniadau
- Cyfeirnodau (*references*)
- Cadwyni cyfeirnodau (*chains of references*)
- Llyfryddiaethau (*bibliographies*)
- Aralleirio (*paraphrasing*)
- Crynhoi (*summarising*)
- Adnoddau sydd ddim yn briodol ar gyfer gwaith academiaidd
- Strwythurau aseiniadau (traethodau, adroddiadau, ayyb)
- Disgwyliadau marcwyr aseiniadau
- Cynllunio a rheoli amser
- Nifer o ddyddiadau cau ar gyfer aseiniadau o fewn amser byr
- Cyflwyno ar-lein

Canlyniad hyn yw ein bod ni'n gweld bod myfyrwyr yn defnyddio geiriau, brawddegau neu baragraffau penodol, neu gyfresi o syniadau, sydd ddim wedi'u cydnabod ac yn agos iawn i syniadau cyhoeddedig. Mewn achosion o'r fath, mae'n amlwg bod y syniadau yn rhy benodol i gael eu hystyried yn wybodaeth gyffredin. Dim ond ar ôl darllen gwaith cyhoeddedig penodol byddai'r myfyrwyr wedi dod ar draws y syniadau hyn, felly mae rhaid iddyn nhw gydnabod y gwaith cyhoeddedig hwn yn nhestun eu haseiniad ac yn y llyfryddiaeth ar ddiwedd yr aseiniad.

Pa fath o aseiniadau sydd gennych chi?

- Traethodau ☐
- Adroddiadau ☐
- Arholiadau ☐
- Cyflwyniadau llafar ☐
- Trafod mewn seminarau ☐
- Dogfennau aml-gyfryngol ☐
- Gwaith creadigol/perfformio ☐
- Gwaith labordy ☐
- Arall
 - _____ ☐
 - _____ ☐
 - _____ ☐

Pa nodwedd gyffredin sy'n clymu'r gwahanol fathau o waith academiaidd hyn at ei gilydd?

Pa agweddau o'r rhain mae angen ichi eu datblygu?

Bydd unrhyw gwestiynau sy'n cael eu cynnwys yma yn cael eu hateb. Os nad oes modd cynnig atebion yn y sesiwn, bydd y cwestiwn yn cael ei nodi a bydd ymateb yn cael ei ddarparu ar ôl y cwrs.

5. Ffyrdd o gydnabod gwaith pobl eraill yn eich gwaith ysgrifenedig

Crëwch ddiffiniad byr ar gyfer pob un o'r termau a ganlyn. Pa wybodaeth hanfodol sydd ei hangen ym mhob achos? (Ceir y diffiniadau yn Atodiad A)

Dyfyniad (<i>Quotation</i>)	
Cyfeirnod (<i>Reference</i>)	
Cyfeiriad (<i>Citation</i>)	
Cyfeiriadau a Llyfryddiaeth (<i>References & Bibliography</i>)	
Crynhai/Crynodeb (<i>Summarising/Summary</i>)	
Aralleirio/Aralleiriad (<i>Paraphrasing/Paraphrase</i>)	

Mae angen i unrhyw ddarn o waith academiaidd gael ei ysgrifennu yn eich geiriau eich hunan. Canolbwynt y gwaith yw eich dehongliad eich hunan o bwnc a'ch dadl eich hunan. Mae unrhyw syniadau sy'n ymddangos mewn gwaith cyhoeddedig yn cael eu cynnwys yn eich gwaith er mwyn cefnogi eich safbwynt (boed yn syniadau rydych chi'n cytuno â nhw ai peidio).

Gall eich safbwynt gynnwys syniadau o ffynonellau cyhoeddedig, sy'n cael eu dyfynnu, eu crynhoi neu eu haralleirio. Ym mhob achos, mae angen cynnwys cyfeiriad at y ffynonellau lle mae'r syniadau hyn yn ymddangos. Hyd yn oed os ydym ni'n disgrifio syniadau rydym ni wedi eu datblygu ein hunain, mae angen cynnwys cyfeiriadau os yw'r syniadau yn gysylltiedig â syniadau mewn gwaith cyhoeddedig neu'n deillio o syniadau mewn gwaith cyhoeddedig. Yn y bôn, mae angen inni allu cydnabod sut rydym ni wedi datblygu ein syniadau. Mae hyn yn dangos bod angen cydnabod, nid dim ond yr union eiriau sy'n ymddangos yn y gwaith gwreiddiol, ond hefyd syniadau sydd wedi'u haddasu neu sy'n deillio o ffynonellau eraill ac wedi'u hysgrifennu yn ein geiriau ein hunain.

6. Dulliau dyfynnu a chyfeirio

- “Dyfyniadau uniongyrchol” yw union eiriau'r awdur gwreiddiol. Mae'n RHAIID defnyddio dyfynodau (*quotation marks*) gyda nhw: “...” neu ‘...’
- Gwiriwch ganllaw arddull eich adran i weld a ydyn nhw'n disgwyl dyfynodau dwbl neu sengl.
- Mae angen ichi hefyd ddefnyddio cyfeiriad - enw'r awdur, blwyddyn cyhoeddi a rhif y dudalen (lle mae hyn yn berthnasol). Os ydych chi'n cynnwys enw'r awdur fel rhan o'ch brawddeg, mae'n gyfeiriad **integrol**. Os ydych chi'n cynnwys enw'r awdur mewn cromfachau (*brackets*), troednodyn neu ôl-nodyn, mae'n gyfeiriad **anintegrol**.
 - Mae cyfeiriadau yn gallu cael eu hychwanegu mewn troednodyn neu ôl-nodyn. Gwiriwch ganllaw arddull eich adran am ddisgwyliadau ar gyfer defnyddio cromfachau, troednodiadau neu ôl-nodiadau ar gyfer cyfeiriadau.
- Os ydych chi'n cynnwys dyfyniad yn eich brawddeg eich hunain, dylai fe ddim bod yn hirach na 2-3 llinell. Dylech chi ei olygu i ffitio gramadeg eich brawddeg. Defnyddiwch dri dot a chromfachau sgwâr i ddangos lle rydych chi wedi golygu'r dyfyniad. Dyma enghraifft o erthygl yn y cyfnodolyn academiaidd *Gwerddon*:

Gwelir bod modd defnyddio dealltwriaeth o'r gwyddorau
ymddygiadol 'fel dull amgen, ar ffurf lens [...] a hefyd fel

fframwaith y gellid ei ddefnyddio i ymchwilio i ymyraethau
[ac i] ddarparu cyfeiriad i ymchwil ac arfer yn y dyfodol' (Evas
a Cunliffe 2017: t. 61).

(Elias a Griffith, 2019: t.63)

- Os ydych chi'n defnyddio troednodiadau/ôl-nodiadau, mae cyfeiriadau yn ymddangos ar waelod tudalen. Nid ydyn nhw'n cael eu defnyddio yn lle llyfryddiaeth. Mae'n rhaid cynnwys llyfryddiaeth hefyd. Isod mae'r un enghraifft o Elias a Griffith (2019: t.63) gyda throednodiadau yn lle cyfeiriadau o fewn y testun: mae troednodiadau yn ymddangos ar waelod y dudalen ac mae cyfeirnodau yn ymddangos ar ddiwedd y ddogfen hon:

Gwelir bod modd defnyddio dealltwriaeth o'r gwyddorau
ymddygiadol 'fel dull amgen, ar ffurf lens [...] a hefyd fel
fframwaith y gellid ei ddefnyddio i ymchwilio i ymyraethau
[ac i] ddarparu cyfeiriad i ymchwil ac arfer yn y dyfodol'

- Os ydych chi'n defnyddio dyfyniad sy'n hirach na 2-3 llinell, dylech chi ei roi mewn bloc o destun ar wahân. Dylai fe fod yn hirach na dwy linell ond, fel arfer, ni ddylai fe fod yn hirach na phump neu chwe llinell. Dylech chi fewnosod (*indent*) y dyfyniad (un bwlch tab) a gadael llinell wag cyn ac ar ôl. Mae'r cyfeiriad yn ymddangos mewn cromfachau oddi dano. Gwiriwch ganllaw arddull yr adran i weld os bydd disgwyl dyfynodau. Dyma enghraifft:

Defnyddia Evas a Cunliffe '[f]odelau Economeg Ymddygiadol
fel dull amgen, ar ffurf lens' er mwyn trafod 'y defnydd isel o
e-wasanaethau yn y Gymraeg, gan gynnig sawl rheswm am
hyn a sawl ffordd o fynd i'r afael â'r sefyllfa' (2017: t. 61).

(Elias a Griffith, 2019: 65)

Ddylwn i ddefnyddio dyfyniadau ai peidio?

Rydym ni'n defnyddio dyfyniadau pan fydd syniad, dadl neu ddiffiniad gan awdur arall yn egluro'r hyn rydym ni'n ei ddweud yn fyr a/neu'n fachog. Os yw'r dyfyniad yn enwog, mae ei gynnwys yn gallu rhoi cyd-destun i'r drafodaeth. Wrth ddefnyddio dyfyniad, mae'n bwysig nad ydych chi'n ei ddefnyddio y tu allan i gyd-destun y drafodaeth am y ffynhonnell wreiddiol.

Ambell waith mae angen dyfynnu awdur sy'n dyfynnu awdur arall. Mae'r dyfyniad o Elias a Griffith (2019) uchod yn gwneud hyn. Dyma enghraifft arall:

Chwedl Rouch:

Fiction is the only way to penetrate reality - the means of sociology remain exterior ones (Eaton, 1979: 8, o Winston, 2008: 183).

Mae'n ymhelaethu ar y pwynt yma wrth drafod ei ffilm ddogfen enwog *Chronicle d'un Été*, 1960...

(Chapman a Sills-Jones, 2011: 67-8)

Yn ei lyfr, mae Brian Winston sy'n trafod llyfr Mick Eaton ar ffilmiau Jean Rouch, ac mae'n bwysig cydnabod hyn. Yn y sefyllfa hon, mae angen chwilio am y gwaith gwreiddiol gan Eaton (1979) hefyd, a bydd angen cysylltu syniadau'r ddau. Mae hefyd angen cynnwys cadwyn cyfeirnodau yn y llyfryddiaeth - nid dim ond cyfeirnod ar gyfer gwaith Winston (2008). Wrth chwilio am y ffynonellau gwreiddiol, gwelir bod gwaith Eaton (1979) yn ymddangos mewn llyfr a olygir ganddo. Felly, mewn rhai adrannau bydd disgwyl tri chyfeirnod yn y llyfryddiaeth:

Eaton, M. (Gol.). 1979. *Anthropology-Reality-Cinema: Films of Jean Rouch*. Llundain: BFI.

Eaton, M. 1979. "Chronicle". Yn Eaton, M. (Gol.). 1979.

Winston, B. 2008. *Claiming the Real II. Documentary: Grierson and Beyond*. Llundain: BFI.

Mewn adrannau eraill, disgwylir ichi gynnwys dau gyfeirnod - un at Eaton (1979) fel pennod mewn llyfr a olygir ac un at Winston (2008):

Eaton, M. (1979). *Chronicle*. Yn Eaton, M. (Gol.) *Anthropology-Reality-Cinema: Films of Jean Rouch*. Llundain: BFI, tt.5-8.

Winston, B. (2008). *Claiming the Real II. Documentary: Grierson and Beyond*. Llundain: BFI.

Cyfieithu dyfyniadau

Y confensiwn arferol yw peidio â chyfieithu dyfyniadau os oes disgwyl y bydd y gynulleidfa yn gallu darllen y dyfyniad yn yr iaith wreiddiol. Mae hyn yn golygu nad yw dyfyniadau o ffynonellau yn Saesneg yn cael eu cyfieithu fel arfer wrth ysgrifennu'n Gymraeg, gan fod y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru sy'n gallu darllen Cymraeg hefyd yn gallu darllen Saesneg. (Gweler yr enghraifft o Chapman a Sills-Jones (2011) uchod). Rhesymau am gyfieithu dyfyniadau o ffynonellau Saesneg i'r Gymraeg yw cynulleidfa sy'n gallu darllen Cymraeg ond nid Saesneg, ac ysgrifennu o safbwynt damcaniaethol ymgyrchu iaith. Os ydych chi'n cyfieithu

dyfyniadau yn Saesneg i'r Gymraeg, dylech chi nodi bod y dyfyniadau yn gyfieithiadau ac mai chi yw'r cyfieithydd. Gallwch chi wneud hyn mewn troednodyn.

Os ydych chi'n dyfynnu o lyfr neu erthygl mewn cyfieithiad, hynny yw llyfr neu erthygl a oedd wedi cael ei gyhoeddi mewn iaith arall yn gyntaf ac wedi cael ei gyfieithu a chyhoeddi mewn iaith arall nes ymlaen, does dim angen nodi ei fod yn gyfieithiad wrth ddyfynnu. Fodd bynnag, mae angen nodi'r cyfieithydd yn y cyfeirnod yn eich llyfryddiaeth. Er enghraifft, dyma ddyfyniad o'r *Manifesto Comiwnyddol* enwog gan Fredrich Engels a Karl Marx:

Nid oes gan y proletariaid ddim ond eu cadwynau i'w golli
[...]. Y mae ganddynt fyd i'w ennill.

(Engels a Marx, 1848/2014: 60)

Bydd y cyfeirnod yn y llyfryddiaeth yn ymddangos fel hyn:

Engels, F. a Marx, K. 1848/2014. *Y Manifesto Comiwnyddol*. Cyf. W.J. Rees. Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Nodyn: yn yr enghraifft o'r *Manifesto Comiwnyddol*, gwelwch fod blwyddyn yr argraffiad cyntaf yn ymddangos yn y cyfeiriad, ynghyd â blwyddyn yr argraffiad sy'n cael ei ddefnyddio yn y traethawd. Mae hefyd yn ymddangos yn y cyfeirnod. Mae hyn osgoi drysu'r darllenwyr a rhoi'r argraff bod Engels a Marx yn dal i ysgrifennu yn 2014, pan fuont farw yn 1895 a 1883.

Gellir defnyddio dyfyniad:

- I ddechrau trafodaeth feirniadol;
- I ddarparu enghraifft sy'n cefnogi eich dadl eich hunan;
- I grynhoi eich trafodaeth.
- Os oes amwysedd neu amheuaeth sy'n golygu bod mwy nag un dehongliad o'r testun.

Ymhob achos, mae dyfyniad yn rhoi awdurdod i'ch dadl eich hunan, ac yn dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r llenyddiaeth yn eich maes a'r gallu i ddefnyddio'r llenyddiaeth hon i ymdrin â'r pynciau rydych chi'n ysgrifennu amdanynt.

Ni ddylid defnyddio dyfyniad:

- Yn lle eich trafodaeth eich hunan;
- I gysylltu syniadau rydych chi wedi ysgrifennu amdanynt, sydd ddim yn gysylltiedig ar eu pennau eu hunain;
- Pan nad yw'n cael ei ddehongli neu nad oes cyfeiriad.

Mae rhaid ichi ddehongli bob dyfyniad cyn neu ar ôl ei ddefnyddio. Mae angen rheswm am eu cynnwys yn eich ysgrifennu.

7. Mynd i'r afael ag aralleirio a chrynhai

Hyd yn oed os ydych chi'n aralleirio neu grynhai ac ysgrifennu syniadau yn eich geiriau eich hunain, mae angen ichi gynnwys cyfeiriad yn eich testun a chyfeirnod yn eich llyfryddiaeth. Rydych chi'n seilio eich syniadau ar syniadau rydych chi wedi eu darllen rhywle arall. Wrth aralleirio rydych chi'n gweithio gyda syniadau arbenigwyr yn y maes sydd wedi eu cyhoeddi. O ganlyniad, mae'n eithaf heriol dehongli syniadau cymhleth a'u hysgrifennu yn feirniadol yn eich geiriau eich hunain. Yn yr adran hon, byddwn ni'n edrych ar ffyrdd o adnabod syniadau pwysig, geiriau allweddol dydyn ni ddim yn eu newid wrth aralleirio a mynegiant personol (*personal expression*) yr awdur gwreiddiol sydd angen ei newid wrth aralleirio. Hefyd, byddwn ni'n edrych ar ffyrdd o benderfynu beth sy'n berthnasol i'ch dadl eich hunain a beth rydych chi'n gallu ei adael allan.

Aralleirio: ffocysu ar syniadau penodol wrth drafod materion neilltuo

Enghraifft: testun gwreiddiol yn Gymraeg

“Agwedd arall ar thema hunaniaeth a godai yn y data oedd disgwrs ‘yr arall’.
Roedd rhai cyfranogwyr yn adnabod eraill fel ‘siaradwyr Cymraeg’ yr oedd addysg Gymraeg yn addas ar eu cyfer, ond ni themlent ei bod yn addas iddynt hwy yn bersonol, er eu bod yn medru'r iaith. Roedd synnwyr o ddiffyg hunaniaeth Gymraeg, felly, yn rhwystro dysgwyr rhag parhau â'r iaith. Mae'n glir o'r data bod y cysyniad o 'siaradwr Cymraeg', felly, yn golygu mwy na meddu ar batrymau ieithyddol.”

(Davies, 2020: t.76)

Enghraifft: testun gwreiddiol yn Saesneg

“Technology and the Internet pose complex challenges for school leaders; these challenges should not be underestimated. While the Internet presents new issues to sort through and new ground to tread, it surely is here to stay.

Now is the time to explore the Internet's potential for meeting the educational needs of diverse groups of students and involving their parents in student achievement. And schools that take command of the Internet as a tool to accomplish overriding goals, such as improving student achievement and galvanizing parental support, will benefit in the long run."

(National School Boards Foundation, 2000, dim tudalen)

Mae'r testunau yn cynnwys yr eitemau canlynol:

- a) Gwybodaeth hanfodol / gwybodaeth does dim modd ei newid e.e. addysg Gymraeg, siaradwyr Cymraeg, hunaniaeth Gymraeg, school leaders (arweinwyr ysgolion), parents (rhieni), technology (technoleg), internet (y rhyngwrdd), educational (addysgol)
- Os ydyn ni'n ceisio aralleirio'r rhain, gallem ni gamarwain ein darllenwyr oherwydd eu bod nhw'n wybodaeth sy'n cael ei rhannu / termau rydym ni'n eu defnyddio i ddeall termau eraill. Wrth ysgrifennu yn Gymraeg, bydd angen inni gyfieithu'r termau unigol hyn mor agos â phosib.
- b) Geiriau sy'n cysylltu geiriau eraill, e.e. y fannod (the / y, yr), cysyllteiriau (*conjunctions*) (e.e. and, but /a, ac, ond), arddodiaid (*prepositions*) (e.e. for, in, of / i, am, ar gyfer, yn, mewn, o)
- Y ffordd rydych chi'n ysgrifennu darn o destun yn pennu'r ymadroddion rydych chi angen eu defnyddio i gysylltu eich gwaith at ei gilydd. Maen nhw'n dibynnu ar reolau gramadeg. Felly, does dim modd aralleirio geiriau o'r fath. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, wrth ysgrifennu yn Gymraeg, nad yw geiriau cysylltu yn Gymraeg yn cyfateb â geiriau cysylltu yn Saesneg, ac ni ddylech chi gyfieithu'n slafaid, ond, yn hytrach, defnyddio'r geiriau cysylltu sy'n briodol yn Gymraeg. Er enghraifft:
 - o The history of Wales = Hanes Cymru
 - o A number of people = Nifer o bobl
 - o The number of people = Nifer y bobl
 - o History from Wales = Hanes o Gymru

- c) Geiriau/ymadroddion disgrifiadol, adferfau (*adverbs*), ansoddeiriau (*adjectives*), cysyllteiriau (*connectives*), e.e. while / wrth, almost all / bron bob un, far / ymhell, some / rhai
- Mae'r geiriau hyn yn rhan o arddull ysgrifennu personol awdur unigol. Mae nifer o gyfystyron (*synonyms*) a gwrthystyron (*antonyms*) ar gyfer y geiriau ac ymadroddion hyn, a dylech chi eu haralleirio.

Nodweddion eraill:

Ffurfiâu ar y ferf

Yn Gymraeg, mae modd defnyddio'r ffurf gwmpasog neu'r ffurf gryno i fynegi'r un peth: e.e. Mae hyn yn golygu bod... / Golyga hyn fod...

Rydym hefyd yn gallu defnyddio ffurf amheronol ar y ferf (y terfyniadau -ir, -wyd, -id) neu'r goddefol i fynegi'r un peth: e.e. Dadleuir bod... / Mae'n cael ei dadlau bod...

Nid yw hyn yn berthnasol yn wrth aralleirio yn Saesneg ond mae'n ddefnyddiol wrth ysgrifennu'n Gymraeg. Mae cywair/ffurfioldeb yr ysgrifennu yn pennu pa ffurf ar y ferf rydych chi'n ei defnyddio. Mae defnyddio ffurfiâu cryno ac amheronol ar y ferf yn gyffredin mewn ysgrifennu academiaidd ffurfiol.

Gwnewch restr o unrhyw eiriau neu ymadroddion rydych chi'n eu hystyried yn wybodaeth hanfodol neu ymadroddion disgrifiadol. Mae'r atebion yn Atodiad B.

Gwybodaeth hanfodol	Eitemau disgrifiadol

Meddyliwch am y dadleuon isod. Penderfynwch pa wybodaeth sy'n berthnasol i'r ddadl a pha wybodaeth sy'n gallu cael ei haddasu neu'i hepgor

Testun Cymraeg

Dadl A

Rydych chi'n ysgrifennu traethawd ar sut y gallai ysgolion a cholegau annog rhagor o fyfyrwyr mewn addysg ôl-16 i astudio drwy'r Gymraeg er mwyn helpu gwireddu nod y Llywodraeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Dadl B

Rydych chi'n ysgrifennu traethawd ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau ieithyddol myfyrwyr yn y sector ôl-16 a pham mae rhai yn dewis astudio drwy'r Gymraeg ac mae eraill yn dewis astudio drwy'r Saesneg.

Dadl C

Rydych chi'n ysgrifennu traethawd ar bolisiâu addysg a sut maen nhw'n effeithio ar y nifer o fyfyrwyr sy'n parhau ag addysg Gymraeg yn y sector ôl-16.

Testun Saesneg

Dadl Ch

Rydych chi'n ysgrifennu traethawd ar sut mae rhieni yn gallu cymryd rhan yn addysg eu plant a sut mae defnyddio adnoddau ar y rhyngwrwyd yn gyfrifol yn gallu helpu gyda hyn

Dadl D:

Rydych chi'n ysgrifennu traethawd ar sut mae ysgolion yn defnyddio technoleg mewn addysg a sut mae athrawon angen dylunio gweithgareddau a fydd hyn helpu dysgu ac ymgysylltu (*engagement*).

Dadl Dd:

Rydych chi'n ysgrifennu traethawd ar sut mae awdurdodau addysg lleol yn gweld defnyddio adnoddau rhyngwrwyd mewn ysgolion gyda golwg ar fonitro'r amser annibynnol y mae plant yn ei gael i weithio ar eu pennau eu hunain neu mewn grwpiau.

Aralleiriadau posib

Yn yr ymarfer hwn, rydym ni'n gweithio gyda pharagraffau ynysig sy'n dod o ddogfennau cyhoeddedig mwy o faint ac mae angen darllen beth sy'n dod cyn y paragraff ac ar ôl y paragraff. Bydd hyn yn ein helpu rhoi'r syniadau mewn cyd-destun. Pan fyddwn ni'n aralleirio,

yn aml iawn rydym ni'n ysgrifennu darn o destun tua'r un hyd â'r testun gwreiddiol. Fodd bynnag, rydym ni'n cysylltu'r syniadau yn y gwreiddiol i'n syniadau ein hunain, felly dydyn ni ddim yn defnyddio pob syniad sydd yn y gwreiddiol. Os ydyn ni'n defnyddio pob syniad sydd yn y gwreiddiol yn yr un drefn, maent yn edrych yn agos i'r gwreiddiol ac mae'n bosib bydd ein gwaith yn cael ei feirniadu am fod yn rhy agos. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw'r gwaith gwreiddiol yn Saesneg ac mae ein gwaith ni yn Gymraeg. Nodwch fod cyfeiriad yn cael ei ddefnyddio ymhob enghraifft.

Testun Cymraeg

Aralleiriad i gefnogi Dadl A:

Rydych chi'n ysgrifennu traethawd ar sut y gallai ysgolion a cholegau annog rhagor o fyfyrwyr mewn addysg ôl-16 i astudio drwy'r Gymraeg er mwyn helpu gwireddu nod y Llywodraeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Dengys astudiaeth Davies (2020) fod datblygu hunaniaeth Gymraeg sy'n golygu bod y dysgwyr yn gweld eu hunain fel siaradwyr Cymraeg yn gallu annog myfyrwyr i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyrraedd addysg ôl-16. Mae'n adnabod carfan o fyfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ond yn gweld 'siaradwyr Cymraeg' fel grŵp ar wahân nad ydynt yn perthyn iddo, ac mae hyn yn eu hatal rhag dewis addysg Gymraeg. Awgrymir felly bod angen mwy na rhuglder yn yr iaith i fod yn 'siaradwr Cymraeg'. Mae hefyd angen uniaethu â'i hanes a diwylliant a gellid cymryd camau i ddatblygu hyn.

Aralleiriad i gefnogi Dadl B:

Rydych chi'n ysgrifennu traethawd ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau ieithyddol myfyrwyr yn y sector ôl-16 a pham mae rhai yn dewis astudio drwy'r Gymraeg ac mae eraill yn dewis astudio drwy'r Saesneg.

Yn ôl Davies (2020), mae ffactorau diwylliannol yn gallu dylanwadu ar fyfyrwyr i newid o astudio'n Gymraeg i astudio'n Saesneg wrth gyrraedd addysg ôl-16. Un o'r ffactorau hyn yw presenoldeb neu absenoldeb hunaniaeth Gymraeg, hynny yw, uniaethu â hanes a diwylliant yr iaith ynghyd â'i siarad. Teimla rhai siaradwr rhugl nad ydynt yn cofleidio hunaniaeth Gymraeg fod 'siaradwyr Cymraeg' yn grŵp ar wahân nad ydynt yn aelod ohono. Mae'r myfyrwyr hyn yn gweld addysg Gymraeg yn addas i 'siaradwyr Cymraeg' yn unig ac felly yn penderfynu parhau â'u haddysg drwy'r Saesneg.

Aralleiriad i gefnogi Dadl C:

Rydych chi'n ysgrifennu traethawd ar bolisiau addysg a sut maen nhw'n effeithio ar y nifer o fyfyrwyr sy'n parhau ag addysg Gymraeg yn y sector ôl-16.

Awgryma gwaith Davies (2020) fod angen i bolisiau addysg sicrhau mwy nag addysg drwy'r Gymraeg yn y sector addysg orfodol i fyfyrwyr ddewis astudio drwy'r Gymraeg yn y sector ôl-16. Mae hefyd angen darparu cwricwlwm sy'n meithrin dealltwriaeth o hanes a diwylliant yr iaith ynghyd â'r gallu i siarad yr iaith. Bydd hyn yn helpu myfyrwyr i ddatblygu hunaniaeth Gymraeg sy'n eu galluogi i berchnogi'r iaith ac uniaethu â'r gymuned Gymraeg. Heb hunaniaeth Gymraeg, teimla rhai myfyrwyr sy'n medru'r iaith nad ydynt yn perthyn i'r gymuned hon ac felly nad yw astudio drwy'r Gymraeg yn opsiwn priodol iddynt. Gwelir felly bod ethos a chynnwys yr addysg yn bwysig, ynghyd â'r cyfrwng.

Testun Saesneg

Aralleiriad posib i gefnogi Dadl Ch:

Rydych chi'n ysgrifennu traethawd ar sut mae rhieni yn gallu cymryd rhan yn addysg eu plant a sut mae defnyddio adnoddau ar y rhyngwrwyd yn gyfrifol yn gallu helpu gyda hyn.

Mae'r adroddiad "Safe and Smart" (National School Boards Foundation, 2000) yn adnabod rhai o'r goblygiadau ar gyfer bodloni anghenion plant yn yr ysgol. Ceir cydnabyddiaeth y dylai rhieni gyfranogi yn addysg eu plant. Os gall ysgolion ymgysylltu â rhieni, ac adnabod gweithgareddau dysgu penodol a defnydd strwythuredig o amser ar y rhyngwrwyd, bydd yn helpu gyda'r agweddau cymdeithasol ar ddysgu, ynghyd â chyrhaeddiad academiaidd yn gyffredinol.

Aralleiriad posib i gefnogi Dadl D:

Rydych chi'n ysgrifennu traethawd ar sut mae ysgolion yn defnyddio technoleg mewn addysg a sut mae athrawon angen dylunio gweithgareddau a fydd hyn helpu dysgu ac ymgysylltu (*engagement*).

Mae'r adroddiad "Safe and Smart" (National School Boards Foundation, 2000) yn adnabod nifer o bryderon hollbwysig parthed defnyddio'r rhyngwrwyd mewn addysg. Fel cyfrwng newydd ar gyfer datblygu adnoddau a dulliau addysgol, mae'r rhyngwrwyd yn arf werthfawr y gellir ei defnyddio i fynd i'r

afael ag anghenion ystod eang o fyfyrwyr. Yn ogystal, awgryma fod modd cynnwys rhieni'n fwyfwy yn addysg eu plant, gan feithrin cyrhaeddiad gwell ymysg myfyrwyr. Bydd athrawon sy'n adnabod a chyfranogi mewn datblygu syniadau o'r fath yn cyfrannu yn gadarnhaol at safonau addysg gwell ar y cyfan, er gwaethaf wynebu rhai anawsterau i ddechrau.

Aralleiriad posib i gefnogi Dadl Dd:

Rydych chi'n ysgrifennu traethawd ar sut mae awdurdodau addysg lleol yn gweld defnyddio adnoddau rhyngwrwyd mewn ysgolion gyda golwg ar fonitro'r amser annibynnol y mae plant yn ei gael i weithio ar eu pennau eu hunain neu mewn grwpiau.

Mae adroddiad "Safe and Smart" (National School Boards Foundation, 2000) yn adnabod materion sy'n bwysig i ddatblygu polisïau gwybodus (*informed*) a fydd yn helpu ysgolion i ddefnyddio'r rhyngwrwyd yn yr ystafell ddosbarth yn effeithiol. Er bod cydnabyddiaeth y bydd yn rhaid i ysgolion cofleidio technoleg, mae'n rhaid mynd i'r afael â nifer o bryderon ynglŷn â diogelwch plant ar-lein cyn y bydd yn bosibl caniatáu amser dysgu annibynnol mewn ystafelloedd dosbarth. Mae angen trafod y syniadau hyn gyda rhieni er mwyn iddynt fonitro amser eu plant ar y rhyngwrwyd ar weithgareddau gwaith cartref. Cynorthwya hyn wrth osod targedau cyraeddadwy ar gyfer cyrhaeddiad addysgol.

O ran trefn, mae'r syniadau yn eithaf agos i'r gwreiddiol, yn enwedig yn nadleuon B a D, lle mae ffocws y traethawd yn debyg i ffocws y testun gwreiddiol. Fodd bynnag, mae'r syniadau wedi'u cysylltu â materion ehangach sydd ddim yn cael eu trafod yn y gwreiddiol. Mae'r materion ehangach hyn yn rhan o dri safbwynt ar yr un testun sy'n wahanol ond yn perthyn i'w gilydd. Rydym ni'n gweld syniadau sy'n cysylltu â'r ddadl dan sylw yn cael eu datblygu, yn hytrach na chyfres o syniadau sy'n edrych fel y gwreiddiol, heb eu dehongli neu ychwanegu atyn nhw.

Crynhai: creu trosolwg o syniadau creiddiol mewn cyd-destun ehangach

Un o'r agweddau pwysicaf ar grynhoi ac aralleirio yw gwybod faint o'r gwaith gwreiddiol i'w gynnwys. Os ydych chi'n cynnwys gormod, byddwch chi'n cael eich beirniadu am ddibynnu yn ormodol ar waith pobl eraill a bydd hefyd yn fath o arfer annerbyniol. Os dydych chi'n ddim yn cynnwys digon, byddwch chi'n cael eich beirniadu am beidio â thafod y llenyddiaeth yn y maes, a fydd eich gwaith ddim yn cael marciau uchel.

- Darllenwch y testun enghreifftiol ar grynhoi, aralleirio a syntheseiddio sy'n dod o Jordan (1997: 170-171).
- Gwnewch restr o bob un o'r cyfeiriadau yn y testun (gan nodi'r cydbwysedd rhwng cyfeiriadau sy'n rhan o frawddeg (*integral citations*) a chyfeiriadau sy'n ymddangos mewn cromfachau/troednodyn yn unig (*non-integral citations*)).
- Sut byddwch chi'n disgrifio'r syniadau sy'n gysylltiedig â chyfeiriad?
 - Aralleiriad o syniad penodol
 - Crynodeb o syniad creiddiol
 - Cydnabyddiaeth o ffynhonnell ddefnyddiol neu ffynhonnell debyg
 - Nodi syniad yn fyr heb grynodeb neu aralleiriad
 - Enghraifft
 - Arall
- Faint o'r testun sydd wedi'i seilio ar waith pobl eraill?
- Pa osodiadau (*statements*) mae Jordan yn eu defnyddio i gysylltu syniadau pobl eraill i'w safbwyntiau ei hunan?
- Gweler Atodiad C ar gyfer dadansoddiad manwl.

Fel rydym ni'n gweld yn nhestun Jordan, mae Johns (1988) yn awgrymu ffocysu ar y sefyllfa, y broblem, y datrysiad a'r gwerthusiad fel ffordd o fynd ati i grynhoi. Wrth grynhoi, nid oes angen cynnwys pob syniad yn y gwreiddiol - rydych yn ceisio lleihau hyd y gwreiddiol wrth ddefnyddio detholiad o bwyntiau allweddol sy'n berthnasol i'ch gwaith eich hunain.

Brawddegau sy'n perthyn i'r **sefyllfa**:

- Mae'r gallu i grynhoi yn rhan annatod o ysgrifennu da (Jordan, 1997).
- Mae'r rhan fwyaf o grynodebau yn deillio o gymryd nodiadau wrth ddarllen (Jordan, 1997).
- Defnyddio testun "problem/datrysiad" (gan ddyfynnu Jordan a sut mae'n cyferbynnu'r ddau syniad).

Brawddegau neu syniadau sy'n perthyn i'r **problem**:

- Nid yw prosesau'n glir ac, yn aml, dydyn nhw ddim yn cael eu dysgu (Jordan, gan gyfeirio at Johns, 1988).

- Mae rhagdybiaeth bydd myfyrwyr yn gallu gwneud pethau oherwydd bod y tiwtor yn dweud wrthyn nhw i'w gwneud (e.e. hepgor darnau o'r testun gwreiddiol) (Jordan, gan gyfeirio at Johns, 1988).
- Awgrymir gweithdrefn benodol sy'n adnabod 4 categori sy'n bwysig ar gyfer trafod unrhyw bwynt yn feirniadol : y sefyllfa, y broblem, y datrysiad, a gwerthuso'r datrysiad (crynodeb o Johns, 1988)

Brawddegau neu syniadau sy'n perthyn i'r **datrysiad**:

- Ffordd o adnabod prif strwythur y testun drwy edrych am frawddegau mewn pedwar categori:
 - Mae'r myfyrwyr yn ysgrifennu crynodebau yn seiliedig ar eu nodiadau ar gyfer bob categori. Mae'r broses hon yn creu rhywfaint o bellter rhwng eu crynodeb a'r gyfres wreiddiol o syniadau.

Brawddegau neu syniadau sy'n perthyn i'r **gwerthusiad**:

- Mae'r myfyrwyr yn fwy cywir wrth grynhoi ac yn deall y testun gwreiddiol yn well (Jordan, gan ddyfynnu Johns (1988) yn y testun - wedi'i aralleirio yma)

Nodwch fod y gwerthusiad yn ymddangos yn gynnar yn y testun. Wrth i Jordan barhau, mae'n cyfeirio at ffynonellau eraill ac yn eu trafod, ond mae e wedi gorffen ei drafodaeth o waith Johns erbyn hyn.

Dau ddarn o aralleirio/crynhoi wedi'u seilio ar Jordan (1997)

Pa syniadau sydd wedi'u crynhoi, pa syniadau sydd wedi'u haralleirio, a pha syniadau sy'n cynnwys y ddau? Pa syniadau sydd ddim yn cael eu crybwyll yn nhestun Jordan?

Y syniadau sydd ddim yn y gwreiddiol yw'r cysylltiad â syniad ehangach sy'n perthyn i brif bwnc a nod y traethawd.

Crynodeb ac aralleiriad

Dadleua Jordan (1997: 170) fod y gallu i grynhoi yn rhan annatod o ysgrifennu da. Mae'n seilio'r honiad hwn ar waith Johns (1988), sy'n defnyddio dull o edrych ar destunau "problem/datrysiad" sy'n helpu myfyrwyr i weithio gyda dulliau o gymryd nodiadau a fydd yn hwyluso eu gallu i ysgrifennu yn fwy rhydd yn eu geiriau eu hunain. Nid yw prosesau crynhoi ac aralleirio bob amser yn glir. Yn ogystal, nid yw'r cyfarwyddwyd y dylai myfyrwyr ysgrifennu

yn eu geiriau eu hunain yn eu paratoi'n ddigonol ar gyfer ysgrifennu beirniadol. Drwy ddull Johns o adnabod brawddegau neu baragraffau sy'n perthyn i sefyllfa, problem, datrysiad a gwerthusiad y testun, gall myfyrwyr adnabod prif strwythur y testun. Gwahanir y crynodebau sy'n deillio o'r broses hon oddi wrth rediad y testun gwreiddiol ac yn fwy tebygol o ddefnyddio geiriau'r myfyrwyr eu hunain. Yn gyffredinol, arweinir hyn at fwy o gywirdeb, gwell dealltwriaeth o'r testun gwreiddiol ac integreiddio syniadau a drafodir yn well o fewn traethodau'r myfyrwyr.

Aralleiriad a chrynodeb

Adwaen Jordan (1997: 170) gysylltiad agos rhwng gwaith Johns (1988) ac Edge (1983). Mae Edge yn ffocysu'n agos ar werth anhepgor ysgrifennu crynodebau drwy ddull o gymryd nodiadau mewn parau. Mae myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd i arolygu bob paragraff yn y testun gwreiddiol. Gellir adnabod a rhoi sylw i agweddau ar y gwaith sy'n fwy heriol wrth fynd ymlaen. Ar ôl cwblhau'r cam hwn, mae'r myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gyd-ysgrifennu crynodeb o'r gwreiddiol.

Rhaid cynnwys pob ffynhonnell y mae'r darn yn cyfeirio ati yn y llyfryddiaeth. Dylid nodi'r ffynonellau sy'n ymddangos yn llyfr Jordan fel hyn. Ar y pwynt yma, mae'n bosib eich bod chi ddim wedi darllen y testunau gwreiddiol gan Edge a Johns. Os ydych chi'n darllen y gwaith gwreiddiol ac yn cyfeirio at Edge a Johns yn uniongyrchol, mae'n syniad da nodi bod Jordan yn cyfeirio atyn nhw hefyd, gan y bydd hyn yn ehangu sgôp a dyfnder eich trafodaeth o'r syniadau.

Edge, J. (1983) "Reading to Take Notes and to Summarise: A Classroom Procedure." *Reading in a Foreign Language* 1/2. Yn Jordan, R.R. (1997).

Johns, A.M. (1988) "Reading for Summarising: An Approach to Text Orientation and Processing." *Reading in a Foreign Language* 4/2. Yn Jordan, R.R. (1997).

Jordan, R.R. (1997) *English for Academic Purposes: A Guide and Resource Book for Teachers*. Caergrawnt: Cambridge University Press

8. Ysgrifennu llyfryddiaeth

Mae'n gwbl hanfodol cynnwys llyfryddiaeth ar ddiwedd bob darn o waith sy'n cynnwys cyfeiriadau at waith pobl eraill. Maent yn dilyn patrymau penodol, er bod sawl arddull cyfeirnod. Bydd eich adran yn darparu canllaw i'r arddull maent yn disgwyl ichi ei ddefnyddio. Os ydych chi'n astudio mewn mwy nag un adran, mae'n bosib bydd angen ichi weithio gyda mwy nag un canllaw arddull. Er bod hyn yn swnio fel llawer o waith, mae ymchwilwyr a darlithwyr yn gwneud hyn drwy'r amser oherwydd bod gwahanol gwmnïau cyhoeddi a chyfnodolion academiaidd yn defnyddio eu canllaw arddull eu hunain (*house style*) y mae'n rhaid i awduron eu dilyn.

Dyma ganllaw mwy manwl ar gyfer llyfrau, penodau mewn llyfrau wedi'u golygu, erthyglau mewn cyfnodolion a gwefannau, gan ddefnyddio fersiwn o system Harvard.

Dyw Harvard ddim yn cael ei ddefnyddio gan bob adran, ac mae gwahaniaeth o ran atalnodi a fformat mewn gwahanol adrannau a sefydliadau. Ambell waith, mae'r gwahaniaethau yn cyfuno elfennau o wahanol ganllawiau, lle mae'r canllawiau yn debyg - e.e. Harvard ac APA. Y peth pwysig yw eich bod chi'n gyson wrth ddefnyddio'r arddull sy'n berthnasol i'ch adran chi.

Arddulliau Cyffredin: Canllawiau Swyddogol/Manwl

- APA: American Psychological Association
<http://www.apastyle.org>
- Harvard (Dehongliad manwl sy'n dangos y prif wahaniaethau o gymharu ag APA)
<http://library.leeds.ac.uk/skills-referencing-harvard>
- IEEE: Institute of Electrical and Electronics Engineers
<http://www.ieee.org/documents/ieeecitationref.pdf>
- MHRA: Modern Humanities Research Association
<http://www.mhra.org.uk>
- MLA: Modern Language Association
<https://www.mla.org>

Adnabyddwch yr arddull y mae'ch adran yn ei ddefnyddio. Os dydych chi ddim yn gallu dod o hyd iddo ar wefan yr adran na'i thudalennau Blackboard, holwch eich tiwtor. Os bydd yr adran yn defnyddio Harvard does dim canllaw swyddogol, terfynol ar gyfer yr arddull hwn. Mae prifysgolion ledled y byd wedi creu eu canllawiau cryno eu hunain, ac mae amrywiaethau

bychain yn y ffyrdd maen nhw'n defnyddio atalnodi a fformat rhifau tudalennau. Mae angen ichi ddilyn canllaw eich adran i'r llythyren a bod yn gyson gyda phob nodwedd.

Isod mae'r un cyfeirnod wedi'i ysgrifennu gan ddefnyddio pum arddull gwahanol. Cyflwynir yr un wybodaeth ond mae amrywiaethau yn y mân fanylion, trefn ac atalnodi. Mae APA a Havard yn debyg iawn, a hefyd MHRA a MLA.

APA	Brumfit, C. a Johnson, K. (Goln.) (1979). <i>The Communicative Approach to Language Teaching</i> . Rhydychen: Oxford University Press.
Harvard	Brumfit, C. a Johnson, K. (Goln.). 1979. <i>The Communicative Approach to Language Teaching</i> . Rhydychen: Oxford University Press.
IEEE	C. Brumfit a K. Johnson, Goln. <i>The Communicative Approach to Language Teaching</i> , Rhydychen: Oxford University Press, 1979.
MHRA	Brumfit, Christopher, J. A Johnson, Keith, goln., <i>The Communicative Approach to Language Teaching</i> (Rhydychen: Oxford University Press, 1979)
MLA	Brumfit, Christopher, J. a Johnson, Keith, goln. <i>The Communicative Approach to Language Teaching</i> . Rhydychen: Oxford University Press, 1979.

Crynodeb o'r dogfennau mwyaf cyffredin gan ddefnyddio Harvard

LLYFRAU

Cyfenw, llythrennau enwau cyntaf. (Golygydd os yn berthnasol) (dyddiad). *Teitl y Llyfr: Ac Isdeitl os yn Berthnasol (gan gynnwys 2^{il} neu 3^{ydd} Argraffiad, ayyb.).* Dinas y cyhoeddwr: Enw'r cyhoeddwr.

Brumfit, C. a Johnson, K. (Goln.) (1979). *The Communicative Approach to Language Teaching*. Rhydychen: Oxford University Press.

PENODAU MEWN LLYFRAU

Cyfenw, llythrennau enwau cyntaf. (dyddiad). "Teitl y Bennod: Ac Isdeitl os yn Berthnasol." Yn Cyfenw, llythrennau enwau cyntaf. (Golygydd) (dyddiad).

Hymes, D. (1971) "On Communicative Competence." Yn Brumfit, C. a Johnson, K. (Goln.) (1979).

Neu

Cyfenw, llythrennau enwau cyntaf. (dyddiad). "Teitl y Bennod: Ac Isdeitlau os yn Berthnasol." Yn Cyfenw, llythrennau enwau cyntaf. (Golygydd). *Teitl y Llyfr: Ac Isdeitl os yn Berthnasol*. Dinas y cyhoeddwr: Enw'r cyhoeddwr, tudalennau.

Hymes, D. (1971/ 1979). "On Communicative Competence." Yn Brumfit, C. a Johnson, K. (Goln.) *The Communicative Approach to Language Teaching*. Rhydychen: Oxford University Press, tt. 5-26.

ERTHYGLAU MEWN CYFNODOLION

Cyfenw, llythrennau enwau cyntaf. (dyddiad). "Teitl yr Erthygl: Ac Isdeitl os yn Berthnasol." *Teitl y Cyfnodolyn* Cyfrol/Rhifyn: tudalennau.

Sheldon, L.E. (1998). "Evaluating ELT Textbooks and Materials." *ELT Journal* 42/4: 237-46.

RHYNGRWYD

Cyfenw, llythrennau enwau cyntaf. (dyddiad). "Teitl yr Eitem: Ac Isdeitlau os yn Berthnasol." [Ar-lein]. URL (cyrchwyd xx/xx/xxxx).

Morkes, J. a Nielsen, J. (1997). "Concise, SCANNABLE and Objective: How to Write for the Web." [Ar-lein]. <http://www.useit.com/papers/webwriting/writing.html> (cyrchwyd 1/1/2000).

NODYN: Gyda chyfeirnodau rhyngwyd, mae'r URL (cyfeiriad y wefan) yn ymddangos yn lle'r cyhoeddwr, oni bai bod fersiwn print ar gael hefyd. Yn ogystal, ni ddylech chi ddefnyddio atalnod llawn ar ddiwedd yr URL fel mewn brawddeg. Os ydych chi'n defnyddio atalnod llawn, bydd yn edrych fel rhan o'r URL, ac mae'n bosib na fydd yr hyperddolen yn gweithio.

RHYNGRWYD a FFYNHONNELL GYHOEDEDEG (heb enw'r awdur yn yr enghraifft hon)

Nid yw llawer o ffynonellau ar y we'n cynnwys awdur penodol, yn enwedig os yw'n ddogfen llywodraeth, adroddiad gwybodaeth cyhoeddus, canllawiau sefydliadol, ayyb. Mae'r enghraifft hon yn dangos y confensiwn ar gyfer cyfeirnod ffynhonnell o'r fath, sy'n defnyddio enw'r sefydliad fel enw'r awdur.

Centers for Disease Control and Prevention. (1997) *Take Charge of your Diabetes* (2^{il} Argraffiad). Atlanta: U.S. Department of Health and Human Services. [Hefyd ar gael ar-lein]. <http://www.cdc.gov/nccddp/dtd/ddthome> (cyrchwyd 1/1/2000).

NODYN PWYSIG:

Dylech chi wirio gyda'ch adran i adnabod y canllaw arddull penodol maen nhw'n gofyn i fyfyrwyr ei ddefnyddio. Mae'r enghreifftiau yn y ddogfen hon yn un

dehongliad o Harvard. Bydd adrannau eraill yn argymhell fformatau ac atalnodi sy'n wahanol i'r enghreifftiau hyn neu'n argymhell canllaw allanol.

Dylech chi hefyd wirio canllawiau adrannol ar gyfer mathau o ddogfennau sydd ddim yn ymddangos yma. Nid yw'r ddogfen yn ganllaw terfynol i gyfeirnodu ar gyfer pob adran ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn cyflwyno enghreifftiau yn unig.

Llyfryddiaeth ar gyfer cyfeiriadau yn y ddogfen hon

- Arnaudet, M.L. a Barrett, M.E. 1984. *Approaches to Academic Reading and Writing*. Englewood Cliffs, N.J.: Prentice Hall Regents. Yn Jordan, R.R. 1997.
- Brumfit, C. a Johnson, K. (Goln.). 1979. *The Communicative Approach to Language Teaching*. Rhydychen: Oxford University Press.
- Campbell, C. 1990. "Writing With Others' Words: Using Background Reading Text in Academic Compositions." Yn Kroll, B. (Gol.) 1990. Yn Jordan, R.R. 1997.
- Chapman, T.R. a Sills-Jones, D. 2011. "'Ar wasgar hyd y fro': Arbrawf mewn darllen rhyngddisgyblaethol". *Gwerddon* 9: 59-70.
- Davies, L.B. 2020. "Cyflogadwyedd, cyfrifoldeb, cael digon o'r Gymraeg? Dewisiadau ieithyddol dysgwyr Addysg Bellach". *Gwerddon* 31: 59-82.
- Durham, M., a Morris, J. (Goln.). 2017. *Sociolinguistics in Wales*. Llundain: Palgrave Macmillan, Eaton, M. (Gol.). 1979. *Anthropology-Reality-Cinema: Films of Jean Rouch*. Llundain: BFI. Yn Chapman, T.R. a Sills-Jones, D. 2011.
- Eaton, M. 1979. "Chronicle". Yn Eaton, M. (Gol.). 1979. Yn Chapman, T.R. a Sills-Jones, D. 2011.
- Edge, J. 1983. "Reading to Take Notes and to Summarise: A Classroom Procedure." *Reading in a Foreign Language* 1/2. Yn Jordan, R.R. 1997.
- Elias, O. a Griffith, G. 2019. "'Mae hergwd cyn bwysiced â hawl": newid ymddygiad a pholisi'r iaith Gymraeg". *Gwerddon* 29: 59-80.
- Engels, F. a Marx, K. 1848/2014. *Y Maniffesto Comiwnyddol*. Cyf. W.J. Rees. Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol. [Ar gael ar-lein].
<https://www.porth.ac.uk/cy/collection/maniffesto-r-blaid-gomiwnyddol-karl-marx-a-frederick-engels> (Cyrchwyd 22/07/2021)
- Evas, J. a Cunliffe, D. 2017. "Behavioural economics and minority language e-services - the case of Welsh". Yn Durham, M., a Morris, J. (Goln.). 2017.
- Hymes, D. 1971. "On Communicative Competence." Yn Brumfit, C. a Johnson, K. (Goln.). 1979.
- Johns, A.M. 1988. "Reading for Summarising: An Approach to Text Orientation and Processing." *Reading in a Foreign Language* 4/2. Yn Jordan, R.R. 1997.
- Jordan, R.R. 1997. *English for Academic Purposes: A Guide and Resource Book for Teachers*. Caergrawnt: Cambridge University Press.
- Kroll, B. (Gol.). 1990. *Second Language Writing*. Caergrawnt: Cambridge University Press. Yn Jordan, R.R. 1997.
- Leki, I. a Carson J. 1994. "Students' Perceptions of EAP Writing Instruction and Writing Needs across the Disciplines." *TESOL Quarterly* 28/1. Yn Jordan, R.R. 1997.

- National School Boards Foundation. 2000. "Safe and Smart: Research and Guidelines for Children's Use of the Internet" [Ar gael ar-lein]
<http://web.archive.org/web/20000510070615/http://www.nsb.org/safe-smart/full-report.htm> (Cyrchwyd 22/07/2021).
- Swales, J.M. a Feak, C.B. 1994. *Academic Writing for Graduate Students*. Ann Arbor: University of Michigan Press. Yn Jordan, R.R. 1997.
- Trzeciak, J. a Mackay, S.E. 1994. *Study Skills for Academic Writing*. Hemel Hempstead: Phoenix ELT. Yn Jordan, R.R. 1997.
- Winston, B. 2008. *Claiming the Real II. Documentary: Grierson and Beyond*. Llundain: BFI. Yn Chapman, T.R. a Sills-Jones, D. 2011.

Atodiad A: Diffiniadau o ddyfyniad, cyfeiriad, cyfeirnod, llyfryddiaeth, crynhoi ac aralleirio

Dyfyniad

Defnyddio union eiriau sydd wedi'u cyhoeddi mewn llyfr, erthygl mewn cyfnodolyn, gwefan neu unrhyw ddogfen neu adnodd arall. Mae'n rhaid defnyddio "dyfynodau" (*quotation marks*) gyda dyfyniad sy'n ymddangos fel rhan o frawddeg yn y testun. Mae rhai canllawiau arddull yn nodi na ddylid defnyddio dyfynodau ar gyfer dyfyniadau bloc, sy'n gosod y dyfyniad ar wahân i weddill y testun (e.e. MHRA). Gwiriwch ganllaw arddull eich adran i weld a ydyn nhw'n disgwyl dyfynodau dwbl ("...") neu sengl ('...'). Ymhob achos, mae'n rhaid cynnwys cyfeiriad gyda dyfyniad.

Cyfeiriad

Mae cyfeiriad yn nodi enw awdur a blwyddyn y gwaith gwreiddiol, ac, yn aml, rhif y dudalen y mae'r syniad/geiriau gwreiddiol yn ymddangos arni. Yn aml, mae cyfeiriad yn ymddangos gyda berf sy'n adrodd:

- "Dadleua X (2010, t.21) fod..."
- "Gellir gweld o ddadl X (2010, t.21) bod..."

Mewn rhai arddulliau cyfeirnod, mae'r cyfeiriad yn ymddangos mewn troednodyn neu ôl-nodyn:

- "Mae nifer o resymau sy'n cefnogi'r posibilrwydd hwn."

Mae'n rhaid defnyddio cyfeiriadau gyda dyfyniadau a hefyd pan fyddwch chi'n ysgrifennu am syniadau pobl eraill yn eich geiriau eich hunan.

Cyfeirnod

Mae cyfeirnod yn rhoi manylion llawn y ffynhonnell (llyfr, erthygl, gwefan, ayyb) rydych chi'n ei defnyddio. Mae'n ymddangos fel un cofnod mewn llyfryddiaeth. Y manylion sydd eu hangen yw enw'r awdur, y golygydd (os yn berthnasol), blwyddyn cyhoeddi'r ffynhonnell, y teitl a'r is-deitl, argraffiad (os yr ail neu'n hwyrach), dinas y cwmni cyhoeddi ac enw'r cwmni cyhoeddi. Mae trefn y manylion hyn yn wahanol mewn gwahanol arddulliau. Dyma'r drefn sy'n cael ei defnyddio ar gyfer Harvard neu APA. Mae rhai canllawiau yn argymhell bod y cyfeirnod yn ymddangos yn y troednodyn cyntaf ar waelod y dudalen, gyda'r troednodiadau sy'n dilyn sy'n cyfeirio at yr un ffynhonnell yn ymddangos fel cyfeiriad yn unig (e.e. MHRA).

Cyfeirnodau a llyfryddiaeth

Mae rhestr o gyfeirnodau yn cynnwys pob ffynhonnell rydych chi'n cyfeirio ati yn eich darn o waith. Mae llyfryddiaeth yn cynnwys pob darn o waith rydych chi wedi edrych arno wrth ddatblygu eich gwaith eich hunan. Mae'n syniad da cyfeirio at bob darn o waith rydych chi wedi edrych arno wrth ysgrifennu aseiniad neu waith arall. Os nad ydych chi'n cyfeirio at ddarn o waith rydych chi wedi'i ddarllen ac mae'n glir bod syniad rydych chi'n ysgrifennu amdano yn deillio o'r gwaith hwn, mae'n bosib bod hyn yn cael ei ystyried yn llên-ladrata. Os ydych chi'n cyfeirio at bob darn o waith rydych chi wedi edrych arno wrth ddatblygu eich gwaith, mae hyn eich bod chi'n creu rhestr o gyfeirnodau yn hytrach na llyfryddiaeth, ond, yn ymarferol, mae llawer o bobl yn defnyddio'r gair 'llyfryddiaeth' ar gyfer rhestr o gyfeirnodau.

Crynhoi

Mae crynodeb yn rhoi trosolwg o'r pwyntiau allweddol mewn testun cyhoeddedig. Gall ffocysu ar y llyfr neu erthygl i gyd, ar bennod, neu ar ddetholiad byrrach megis tudalen neu gyfres o baragraffau. Nod crynhoi darn o waith yw adnabod y pwyntiau allweddol a lleihau hyd y testun gwreiddiol er mwyn darparu syniadau sy'n cefnogi amcanion a ffocws eich traethawd eich hunan. Hynny yw, mae angen ichi gysylltu'r syniadau yn y gwreiddiol i'ch dadl neu ddehongliad eich hunan o'r materion dan sylw. Mae angen cynnwys cyfeiriad at y gwaith gwreiddiol wrth grynhoi syniadau sy'n ymddangos ynddo.

Aralleirio

Mae aralleirio yn darparu crynodeb manwl o ddarn penodol, byr o ffynhonnell gyhoeddedig. Yn aml, mae darn sydd wedi'i aralleirio tua'r un hyd â'r darn yn y ffynhonnell gyhoeddedig. Bydd rhai cysyniadau allweddol yn ymddangos yn y testun gwreiddiol a'r aralleiriad, ond bydd y mynegiant yn wahanol. Mae'n rhaid ichi gysylltu syniadau wedi'u haralleirio i'ch dadl eich hunan, felly, ni fyddan nhw'n dilyn trefn wreiddiol o angenrheidrwydd. (Os ydyn nhw'n dilyn trefn y testun gwreiddiol, disgrifir hyn fel 'aralleiriad agos'). Mae'n rhaid ichi gynnwys cyfeiriad at y testun gwreiddiol gyda syniadau wedi'u haralleirio.

Atodiad B: Atebion i wybodaeth hanfodol ac ymadroddion disgrifiadol

Mae'r ymadroddion disgrifiadol mewn **print trwm** ac wedi'u tanlinellu. Ni ddylent ymddangos mewn aralleiriad o'r testun gwreiddiol.

"Technology and the Internet **pose complex challenges** for school leaders; **these challenges should not be underestimated**. **While** the Internet **presents new issues to sort through and new ground to tread, it surely is here to stay**. **Now is the time to explore** the Internet's **potential for meeting** the educational **needs of diverse groups** of students and **involving** their parents in student achievement. And schools that **take command** of the Internet as a **tool to accomplish overriding goals, such as** improving student achievement and **galvanizing** parental support, **will benefit in the long run.**"

(National School Boards Foundation, 2000, dim tudalen - pwyslais wedi'i ychwanegu ar gyfer yr enghraifft hon)

"**Agwedd arall ar thema** hunaniaeth **a godai** yn y data oedd disgwrs 'yr arall'. **Roedd** rhai cyfranogwyr **yn adnabod** eraill fel 'siaradwyr Cymraeg' yr oedd addysg Gymraeg **yn addas ar eu cyfer, ond ni theimlent ei bod yn addas iddynt hwy yn bersonol, er eu bod yn medru'r** iaith. **Roedd synnwyr o** ddiffyg hunaniaeth Gymraeg, **felly, yn rhwystro** dysgwyr **rhag parhau â'r** iaith. **Mae'n glir o'r data bod y cysyniad** o 'siaradwr Cymraeg', **felly, yn golygu mwy na** meddu ar batrymau ieithyddol."

(Davies, 2020, t.76 - pwyslais wedi'i ychwanegu ar gyfer yr enghraifft hon)

Atodiad C: Dadansoddiad o grynhoi ac aralleirio

Enghraifft o destun: Jordan, R.R. (1997: 170-171)

Jordan, R.R. 1997. *English for Academic Purposes: A Guide and Resource Book for Teachers*. Caergrawnt: Cambridge University Press.

Faint o'r testun yw ysgrifennu Jordan ei hun, a faint sy'n perthyn i'r ffynonellau mae e'n cyfeirio atyn nhw neu wedi'i ddylanwadu gan y ffynonellau hyn? Mae'r testun isod yn gymysgedd o ddyfyniadau a nodiadau ar y ffynhonnell wreiddiol.

- “Summary writing is an important aspect of academic writing, and is linked to academic reading by means of note-taking or note-making.” Safbwynt Jordan ei hun.
- Cyfeiriad at Johns (1988b) + berf feirniadol (‘ignore’) + crynodeb sy'n cynnwys dyfyniad fel rhan o'r frawddeg + dyfyniad mewn bloc ar wahân (dyfyniad allanol neu *external quotation*)
- Crynodeb pellach o Johns (1988b) gydag enghreifftiau penodol o weithdrefn gan ddilyn trefn y testun gwreiddiol. Gallai hyn gael ei ystyried yn aralleiriad mwy agos o waith Johns, ond, yn ôl pob tebyg, yn dal i fod yn grynodeb. Gydag enghreifftiau sy'n dilyn trefn y gwreiddiol, mae'n rhaid bod yn ofalus iawn i gydnabod yr awdur, gan y bydd yr aralleiriad yn agos o ran strwythur i'r gwreiddiol.
- Cyfeiriad at Edge (1983) + berf feirniadol (‘emphasises’) + crynodeb sy'n cynnwys gweithdrefn yn nhrefn y testun gwreiddiol.
- Cyfeiriadau o Swales a Feak (1994) a Trzeciak and Mackay (1994) i gefnogi Edge. Mae'r rhain yn enghreifftiau byr o waith tebyg sy'n tynnu sylw at awduron eraill yn y maes. Maen nhw'n dangos bod Jordan yn ymwybodol o'r drafodaeth ar y mater dan sylw yn y maes.
- “An integral part of reading and summarising is paraphrasing - expressing someone else's ideas in your own words, structure and style.” Safbwynt Jordan.

- Crynodeb byr a sôn am ffynhonnell gysylltiedig + cyfeiriad anintegrol at Arnaudet and Barrett (1984).
- “An aspect of academic writing that has received little attention is:” Safbwynt Jordan.
- Dyfyniad allanol: Campbell, 1990 (4 llinell)
- Crynodeb o Campbell gyda chyfeiriad sy’n cymharu Leki a Carson (1994) + dyfyniad allanol o Leki a Carson (4 llinell). Yma, mae Jordan yn dangos gwybodaeth gyffredinol o’r ystod o arbenigwyr cyhoeddus sy’n gweithio yn y maes.
- Cyfeiriad at Campbell (1990) + berf feirniadol (‘investigated’) + crynodeb + aralleiriad posibl o bwyntiau penodol: “primary method of text integration...” (croesgyfeiriad at ddarn yn llyfr Jordan mewn cromfachau). Crynodeb pellach yn cysylltu â dyfyniad allanol (3 llinell).
- Crynodeb byr o Campbell sy’n gwerthuso’r dull mae hi’n ei drafodaeth (safbwynt Jordan ar y dull). Crynodeb pellach o Campbell ar werth y dull, sy’n cyd-fynd â safbwynt Jordan. Felly, mae Jordan yn dechrau syntheseiddio syniadau yma.
- Y paragraff olaf yw safbwynt Jordan a diweddsglo i’r adran hon.
- Felly, mae llai na chwarter y testun yn mynegi syniadau gwreiddiol Jordan, ac mae’r pwyntiau sy’n deillio o waith awduron eraill sy’n cael eu crynhoi, aralleirio a’u dyfynnu yn hanfodol i gefnogi ei ddadl.
- Nodwch yn arbennig nifer y cyfeiriadau. Mewn llyfryddiaeth sydd wedi’i llunio’n gywir, bydd pob un yn cael ei gynnwys.

Llyfryddiaeth o bob cyfeiriad yn Jordan (1997)

Mae hyn yn cynnwys cadwyni o gyfeirnodau ar gyfer pob ffynhonnell, yn ôl y llyfryddiaeth yn llyfr Jordan.

- Arnaudet, M.L. a Barrett, M.E. (1984). *Approaches to Academic Reading and Writing*. Englewood Cliffs, N.J.: Prentice Hall Regents. Yn Jordan, R.R. (1997).
- Campbell, C. (1990). "Writing With Others' Words: Using Background Reading Text in Academic Compositions." Yn Kroll, B. (Gol.)(1990). *Second Language Writing*. Caergrawnt: Cambridge University Press. Yn Jordan, R.R. (1997).
- Edge, J. (1983). "Reading to Take Notes and to Summarise: A Classroom Procedure." *Reading in a Foreign Language* 1/2. Yn Jordan, R.R. (1997).
- Johns, A.M. (1988). "Reading for Summarising: An Approach to Text Orientation and Processing." *Reading in a Foreign Language* 4/2. Yn Jordan, R.R. (1997).
- Jordan, R.R. (1997). *English for Academic Purposes: A Guide and Resource Book for Teachers*. Caergrawnt: Cambridge University Press.
- Kroll, B. (Gol.)(1990). *Second Language Writing*. Caergrawnt: Cambridge University Press. Yn Jordan, R.R. (1997).
- Leki, I. a Carson J. (1994). "Students' Perceptions of EAP Writing Instruction and Writing Needs across the Disciplines. *TESOL Quarterly*, 28/1. Yn Jordan, R.R. (1997).
- Swales, J.M. a Feak, C.B. (1994). *Academic Writing for Graduate Students*. Ann Arbor: University of Michigan Press. Yn Jordan, R.R. (1997).
- Trzeciak, J. a Mackay, S.E. (1994). *Study Skills for Academic Writing*. Hemel Hempstead: Phoenix ELT. Yn Jordan, R.R. (1997).